PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 4 | Ionawr 22, 2026 | 50c.

PUM PETH PERSONOL

# Gwarchod y cread

Rwy' newydd ddarllen erthygl ar yr hinsawdd gan Hywel Griffiths yn rhifyn cyfredol cylchgrawn *Barn*. Edrych yn ôl y mae ar 2025, o dan y pennawd 'Tywydd eithafol a data sobreiddiol.' A gwir a ddywed Hywel, wrth iddo roi enghraifft ar ôl enghraifft o dywydd eithafol ar draws y byd a'r effeithiau trychinebus.

Bu'n flwyddyn y tanau gwyllt. Los Angeles ddechrau'r flwyddyn, ac yna yn Sbaen, Gwlad Groeg, Türkie, Gweriniaeth Corea ac Awstralia yn dilyn rhai o'r tymereddau uchaf ar gofnod yn ystod misoedd yr haf. Ond hefyd bu'n flwyddyn y llifogydd – Texas, Nigeria, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, De Affrica, Pacistan, Gwlad Thai ac Ynysoedd Philippines. Miloedd wedi eu lladd a miliynau wedi eu dadleoli, heb sôn am y gost aruthrol o ddelio â'r difrod. Adre hefyd gwelwyd dinistr a difrod sylweddol o ganlyniad i lifogydd difrifol, yn Sir Fynwy ac ardaloedd eraill.



Ie, hen ddigon i'n sobreiddio am y niwed sy'n cael ei wneud i'r greadigaeth a'r angen am weithredu brys i'w warchod.

### Llusgo traed

Ac eto, mae'n ymddangos nad ydyw yn ddigon i newid meddyliau rhai. Gwelsom y llusgo traed arferol yng nghynhadledd COP30 yn Brasil, y gwrthod cymryd rhan mewn trafodaethau gan wledydd allweddol a'r wfftio dilornus gan Trump a'i debyg wrth ddatgan bod newid hinsawdd yn ddim byd mwy na 'con-job'! Mae'n ymddangos mai parhau i deithio'r un hen ffyrdd cyfarwydd yw dymuniad nifer o arweinwyr ein byd, gan wneud yr un dewisiadau esgeulus ac anwybyddu pob cri am newid. Gwarchod y cread? Na, gwarchod ein buddiannau barus ein hunain.



Eto, er diffygion amlwg COP30 fe welwyd rhai arwyddion gobeithiol. Cafwyd ymrwymiadau ariannol sylweddol i fynd i'r afael â rhai o achosion newid hinsawdd a sefydlu systemau sy'n galluogi cymunedau i wrthsefyll yr effeithiau.

### Mutirão

Ond efallai bod prif neges y gynhadledd yn cael ei grynhoi yn y gair a fabwysiadwyd ganddi, sef 'Mutirão'. Gair brodorion yr Amazon yw 'Mutirão' sy'n golygu'n syml 'cyd-ymdrechu'. Y neges yw bod rhaid ymdrechu gyda'n gilydd os am herio ffolineb ein ffyrdd gwastraffus a pheryglus o drin y greadigaeth. Rhaid ymdrechu gyda'n gilydd os am ddelio â heriau newid hinsawdd. Rhaid ymdrechu gyda'n gilydd os am warchod y greadigaeth – y rhodd arbennig, unigryw hon gan Dduw. Mae'n ymddangos nad yw cydymdrechu a chydweithio yn eiriau poblogaidd y dyddiau hyn. Mynd ar eu liwt eu hunain mae arweinwyr byd heb ymgynghori â neb heblaw'r rhai sydd eisoes yn cytuno â hwy. Rydym yn gweld tensiynau rhyngwladol dwfn yn ogystal â rhaniadau amlwg o fewn cymdeithas. Ac mae'r cyfan yn cael ei fwydo'n ddigywilydd gan gamwybodaeth a chelwydd. Mewn awyrgylch felly mor bwysig yw ysbryd 'Mutirão'. Cydymdrechu a chydweithio dros les y greadigaeth – ein daear a phopeth sy'n byw ac yn dibynnu arni.

Rhan fach efallai ac eto rhan allweddol o hynny yw ymgyrch newydd yr Undeb, ymgyrch y Pum Peth Personol, a gyflwynwyd yn ddiweddar i ddarllenwyr *Y Tyst* gan Dr Fiona Gannon. Dyma gyfle i ni ddweud na wrth ddewisiadau esgeulus, a gwneud ein dewisiadau gofalus ein hunain. Mae'n gyfle i ni ddweud na wrth ffyrdd o weithredu sy'n fanteisiol i ni, a dewis gweithredu er lles pobl eraill. Mae'n gyfle i ddweud na wrth yr agwedd, 'fi wŷr gwell', a dewis ysbryd 'Mutirão'.

A ydyn ni'n barod i dderbyn yr her?

**Robin Samuel**



# Cymdeithas gweinidogion Bro'r Preseli

Cawsom fore a phrynhawn dymunol tros ben i fwynhau ein cinio Nadolig eleni yng Nghaffi Beca, Efail-wen ar ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2025. Ar yr achlysur hwn bob blwyddyn rydym yn cael yr hyfrydwch o groesawu gwestai gwadd i'n hannerch ac eleni cawsom gwmni'r Cynghorydd John Davies, Cwmbetws. Cafodd ei gyflwyno gan ei weinidog y Parchg Siân Elin Thomas, ac yn ogystal â'r holl deitlau mae'n eu cynrychioli roeddem yn meddwl amdano'r foment hon wrth ei het fel Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod y Garreg Las 2026, sydd i'w chynnal yn ei gynefin yng nghyffiniau Eglwyswrw.

### Anerchiad

Cawsom wrando ar anerchiad diddorol a difyrrus eithriadol gyda John yn cydnabod ei ddyled i'w gefndir capelyddol yn Ebeneser, Dyfed, fel caiff yr achos Fedyddiedig ei hadnabod ar lafar gwlad. Soniodd am ei ddyled i ddylanwad gweinidogion arno megis y diweddar T. R. Jones ac W. J. Griffith, y cynghorydd a'i gyd-ddiacon y diweddar Glyndwr Vaughan a'r diweddar Martin Lloyd, ei brifathro tra yn Ysgol y Preseli. Wrth gydnabod ei ddyled i'r cyfeillion hyn yn ei anerchiad cawsom fwynhau straeon difyr a chawsom chwerthin yn iach wrth wrando. Wedi'r anerchiad cawsom fwynhau cinio Nadolig tri chwrs blasus iawn a mwynhau mins pei tros baned, diolch i garedigrwydd Robert Bowen, ei briod a'r staff yn y caffi sydd bellach ar ei newydd wedd.



### Ar y gweill

I ddechrau ein tymor 2025–26 eleni cawsom gwmni hyfryd Dr Fiona Gannon, Clydach i'n hannerch. Fe rannodd wybodaeth gyda ni am ei gwaith fel arweinydd yng Nghapel y Nant ac am y siop elusen a'r ymddiriedolaeth y mae hi'n eu harwain a'u rhedeg yng Nghlydach. Yn ystod y tymor, gyda'r Parchg Andrew Lenny yn y gadair, rydym wedi dechrau trafod y Llythyron at y Saith Eglwys yn Asia yn Natguddiad Ioan, ac yn cael blas ar y maes. Ac i gloi'r flwyddyn y tro yma, gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Sir Benfro, ym Mehefin fe fydd y Parchedigion Eirian Wyn Lewis a Siân Elin Thomas yn ein harwain ar bererindod yn ardal Eisteddfod y Garreg Las.

Roeddem yn gwmni o 16 o weinidogion yng nghwmni John Cwmbettws, gyda rhai yn ymddiheuro. Mae llewyrch ar y gymdeithas, a'r gwmnïaeth bob amser yn felys a bendithiol. Edrychwn ymlaen at fwynhau gweddill y tymor yn y flwyddyn newydd.

**Emyr Gwyn Evans,**
Ysgrifennydd

# Gofalaeth Glannau Ogwr

### Drama'r Nadolig – 'Un Seren'

Mae cyfnod y Nadolig yn amser pwysig i blant ym mhobman ond gyda llawer llai ohonynt yn mynychu ysgolion Sul erbyn hyn y pryder yw nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfarwydd â gwir ystyr y Nadolig.

Gyda hyn mewn golwg penderfynodd ein gweinidog, y Parchg Dylan Rhys Parry, gyfansoddi drama, 'Un Seren', ac i aelodau'r ofalaeth ei pherfformio i blant ysgolion Cymraeg dalgylch Gofalaeth Glannau Ogwr, ynghyd â thri pherfformiad i'r cyhoedd.

Hyfryd oedd gweld capel y Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr yn llawn gyda thua 250 o blant o ysgolion Y Ferch o'r Sger a Bro Ogwr ar fore dydd Mawrth 16 Rhagfyr ac eto tua 250 arall o blant o ysgolion Cynwyd Sant a Calon y Cymoedd ar fore dydd Mercher 17 Rhagfyr. Cynhaliwyd y perfformiadau i'r cyhoedd brynhawn a nos Fawrth a phrynhawn dydd Mercher.

Wrth gwrs roedd cyfnod o ymarferion drwy fis Tachwedd dan arweiniad Dylan ond iddo ef mae'r diolch am sgriptio, cynhyrchu, trefnu'r goleuadau a chymryd rhan y llefarydd yn y perfformiadau. Rhaid diolch i'r aelodau drawsnewidiodd y capel yn theatr ar gyfer y perfformiadau ac i aelodau'r ofalaeth am eu perfformiadau. Diolch arbennig i Felicity Cleaves fu'n gyfrifol am y dechnoleg gyfrifiadurol ym mhob perfformiad. Diolch iddi hefyd am baratoi, gyda help eraill, 500 o weithgareddau bach ar gyfer pob plentyn fel eu bod yn gallu parhau i fwynhau gwir ystyr y Nadolig ar ôl mynd yn ôl i'r ysgol.



*Llefarydd – Dylan yn arwain perfformiad*

Rhaid terfynu drwy ddiolch unwaith eto i Dylan am ei holl waith a sicrhaodd fod tua 500 o blant ysgolion Cymraeg ein dalgylch nawr yn gwybod beth yw gwir ystyr y Nadolig.

### Carolau Yng Ngolau Cannwyll

Am nifer o flynyddoedd, cyn creu Gofalaeth Glannau Ogwr, bu Tabernacl Porthcawl yn cynnal noson o Garolau yng Ngolau Cannwyll ac mae'r arferiad wedi parhau ond nawr yn rhan o weithgareddau'r ofalaeth cyn y Nadolig. Nos Wener 9 Rhagfyr oedd y noson eleni. Hyfryd oedd gweld y neuadd wedi ei haddurno ar gyfer croesawu aelodau'r ofalaeth a ffrindiau. Erbyn hyn canhwyllau trydan rydym yn eu defnyddio gan fod sustem larwm mwg y neuadd yn debygol o adweithio i fwg canhwyllau iawn. Diolch i Eluned Evans am drefnu'r noson, i Liz Jones am gyfeilio i'r carolau ac i bawb

*mwy ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 22 2026 RHIF 256

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn dymuno penodi Ysgrifennydd Cyffredinol i wasanaethu fel Prif Weithredwr ac i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar draws yr Undeb, Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru a Chronfa Adeiladu Bedyddwyr Cymru mewn cyfnod trawsffurfiol yn ei hanes.

Rydym yn chwilio am arweinydd gyda gweledigaeth sydd, yn ddelfrydol, yn meddu ar sgiliau profedig mewn llywodraethiant, rheoli newid ac arweinyddiaeth ysbrydol. Elfen hanfodol o'r rôl yw cynnig arweiniad ac anogaeth i eglwysi a gweinidogion yr Undeb.

Mae'r swydd, yn ddelfrydol, ar gyfer gweinidog Bedyddiedig ordeiniedig a chydnabyddedig ac iddynt enw da, neu berson lleyg Bedyddiedig ac iddynt enw da gyda phrofiad o arweinyddiaeth ragorol mewn cyd-destun Cristnogol, elusennol neu gymunedol. Disgwylir cynefindra â gofynion niferus llywodraethiant elusennol, profiad o ddatblygiadau cyfredol mewn gweinidogaeth a chenhadaeth, ac adnabyddiaeth lwyr o'r cyd-destun Cristnogol yng Nghymru.

Mae'n Ofyniad Galwedigaethol, yn ôl amodau Deddf Cydraddoldeb 2010 Atodiad 9 Rhan 1 Paragraff 3, fod deiliad y swydd yn Gristion mewn gair a gweithred ac yn cytuno â Datganiad Egwyddor Undeb Bedyddwyr Cymru, yn unol â'r cyfrifoldeb i ddarparu arweinyddiaeth ysbrydol i gynrychioli a hyrwyddo gweledigaeth Gristnogol a gwerthoedd yr Undeb, ac i fodelu'r ddisgyblaeth Gristnogol ym mywyd yr Eglwysi a thîm y swyddfa.

Mae'r gallu i gysylltu a chyfathrebu yn effeithiol mewn cyd-destun dwyieithog yn hanfodol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 6 Chwefror 2026

Dyddiad cyfweld: 19 Chwefror 2026

Pe baech yn dymuno trafod y swydd yn gyfrinachol yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Judith Morris, ar 07872 824165.


Mae ffurflen gais a phecyn gwybodaeth ar gael drwy gysylltu â swyddfa UBC ar 0345 222 1514 neu post@ubc.cymru.

# Gwahoddiad i Goleg y Bala – rhaglen mis Chwefror

**Aduniad Souled Out: 06–88/02/26**
Cyfle grêt i bobl ifanc 15–19 oed ar ddechrau'r flwyddyn i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl. Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano drwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl! Archebwch eich lle heddiw fan hyn.




**Chwalfa Chwefror: 16–17/02/26**
Deuddydd yn ystod hanner tymor Chwefror i blant 8–11 oed yn llawn gemau, heriau, chwaraeon, canu, nofio a lot mwy. Mae'n gyfle gwych, llawn hwyl, i blant gael dysgu mwy am Iesu. Mi fedrwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.




**Cwrs Chwefror: 20–22/02/26**
Bydd sesiynau yn llawn gemau newydd, crefft, amser i ymlacio yn y 'stafell chwarae', chwaraeon, amser i ddal i fyny hefo hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd; bydd yna nofio, 'inflatables a lot mwy. Mi fyddwn ni hefyd yn edrych ar y Beibl gyda'n gilydd mewn ffordd hawdd i'w deall a pherthnasol i fywyd ieuenctid heddiw!

Mae'r Cwrs ar gyfer ieuenctid blynyddoedd uwchradd 7–10 o Gymru gyfan. Cost y Cwrs yw £82, sy'n cynnwys pob dim fyddan nhw ei angen ar gyfer y penwythnos; mae'r 2il a'r 3ydd person o'r un teulu yn hanner pris! Mi fedrwch chi archebu lle i'ch person ifanc fan hyn.




**Anogir chi yn yr eglwysi i rannu'r wybodaeth am y cyrsiau yma gyda'r plant a'r ieuencitd sy'n gysylltiedig efo'ch eglwys chi. Byddem yn ddiolchgar hefyd os byddech yn cofio mewn gweddi am yr arweinwyr a'r trefniadau i gyd a'r cyrisiau wrth iddyn nhw ddigwydd.**

**Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch gyda ni ar colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 fel y gallwn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi.**

*Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad yng Ngholeg y Bala (cyswllt uchod).*

# Adolygiad Llywodraeth Cymru o Orchymyn Eithriadau Gofal Plant – diweddariad

Ar 11 Awst 2025 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Chwarae a Gweithgareddau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o ddeuddeg wythnos a daeth i ben ar 3 Tachwedd 2025.

O dan Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026, caiff darparu addysg grefyddol ei ystyried yn bennaf o fewn yr eithriad "Hyfforddiant a Thiwtora". Mae'r gorchymyn drafft yn cadw "astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol" fel un o'r mathau penodol o weithgareddau y gellir eu heithrio rhag cofrestru fel gofal dydd. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Drafft 2026 yn cyflwyno terfynau llymach ar y ffordd y darperir yr addysg hon:

- **Trothwy Cofrestru ar gyfer Plant dan 5 oed**: Os yw person yn darparu addysg grefyddol i blant 4 oed neu iau am fwy na 2 awr ar unrhyw un diwrnod, mae'n debygol y bydd gofyn iddo gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- **Ehangder y Gweithgareddau**: Dim ond os yw darparwr yn cynnig hyfforddiant neu diwtora mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr gymeradwy y caiff ei eithrio (sy'n cynnwys chwaraeon, y celfyddydau perfformio, y celfyddydau a chrefft, astudio ysgol/cymorth gyda gwaith cartref, ac astudiaeth grefyddol/ddiwylliannol).
- **Gofal Digwyddiadol**: Er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys, rhaid i unrhyw ofal a ddarperir yn ystod y sesiynau hyn fod yn ddigwyddiadol i'r prif ddiben o ddarparu addysg grefyddol.

Yn ogystal ag ymateb Cytûn, derbyniwyd 97 ymateb ysgrifenedig pellach, ynghyd â 35 o gyfranogwyr a gyfrannodd drwy grwpiau ffocws. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau gan unigolion, grwpiau a sefydliadau cyrff rheoleiddio, a phlant a theuluoedd.

Cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru. Cymerodd 41 o blant a phobl ifanc rhwng 10 a 25 oed ran yn y gweithdai hyn. Er na fydd y gweithdai'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, darparwyd mewnwelediadau gwerthfawr, a bwriedir cyhoeddi'r gwaith hwn ochr yn ochr â chrynodeb ymatebion yr ymgynghoriad.

**Dull Dadansoddi a Gwneud Penderfyniadau**

Mae pob ymateb wedi'i adolygu a'i ddadansoddi gan swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn nodi themâu allweddol, patrymau, a meysydd o gytundeb neu wahaniaeth barn. Dadansoddwyd adborth ansoddol a meintiol ill dau. Cefnogodd Cytûn egwyddor gwell rheoleiddio a chynnal eithriadau i gefnogi darpariaethau ffydd-seiliedig a sector gwirfoddol eraill i blant, yn ogystal â'u rhieni a allai fod yn cymryd rhan eu hunain mewn gweithgareddau crefyddol neu weithgareddau eraill. Nodwyd hefyd gyda Llywodraeth Cymru fod diffyg tystiolaeth empirig glir ar hyn o bryd bod newid yn angenrheidiol, a bod perygl y gallai newidiadau arwain at ganlyniadau anfwriadol a rhoi darpariaeth bresennol mewn perygl.

Bydd eglwysi a sefydliadau am ystyried yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar eu darpariaeth a'u rhaglenni unigol.

**Opsiwn Cymeradwyo Gwirfoddol**

O dan y newidiadau arfaethedig, gall darparwyr addysg grefyddol sy'n parhau i fod wedi'u heithrio rhag cofrestru gorfodol (er enghraifft, y rhai sy'n gweithredu am lai na 2 awr) ddewis ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol newydd. Mae hyn yn eu galluogi i ddangos eu bod yn bodloni safonau diogelwch sylfaenol, megis gwiriadau DBS a hyfforddiant diogelu, ac yn galluogi teuluoedd sy'n cymryd rhan i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu gymorth gofal plant drwy Gredyd Cynhwysol.

Awgrymir y bydd eglwysi a sefydliadau sydd â'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol am ystyried sut y gallai'r cynllun hwn gefnogi eu gweinidogaeth.

**Camau Nesaf**

Bydd y camau nesaf yn cynnwys profi pellach a thrafodaethau gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i gadw rhanddeiliaid yn gyfredol wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Bydd dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad ar y cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Chwarae a Gweithgareddau yn cael ei wneud nesaf.

**Amserlenni Allweddol**

Dylai eglwysi a grwpiau Cristnogol eraill sy'n darparu gofal plant fel gwasanaeth digwyddiadol nodi a bod yn ymwybodol o'r gwaith parhaus yn y maes hwn o bolisi cyhoeddus.

Disgwylir cyhoeddi crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad erbyn diwedd mis Ionawr, neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedyn

Gosod y Gorchymyn yn y Senedd ym mis Chwefror 2026

Craffu gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Trafodaeth yn y Senedd

Disgwylir y bydd Gorchymyn Eithriadau Drafft 2026, os caiff ei basio gan y Senedd, yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2026, ac yn dod i rym ym mis Ebrill 2027, ac y bydd yn gwbl orfodadwy erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn.

Bydd Cytûn yn parhau i fonitro'r maes polisi hwn ac i gynrychioli safbwynt cytbwys o groesawu gwelliannau i'r ddarpariaeth heb roi rhaglenni presennol mewn perygl. Byddwn hefyd yn parhau i alw ar y llywodraeth i sicrhau bod yr holl newidiadau arfaethedig i'r rheoleiddio yn cael eu hasesu o ran risg ac yn cael eu seilio ar sylfaen gadarn o dystiolaeth glir o arfer gorau.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*

# Cyfarchion Blwyddyn Newydd Dda Cymorth Cristnogol

Mae blwyddyn arall wedi mynd heibio wrth i ni nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed! Roedd 2025 yn llawn cefnogaeth gennych chi a'r eglwysi drwy apeliadau, Wythnos Cymorth Cristnogol, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe a'r Eisteddfod Genedlaethol, apêl diolchgarwch a'r Nadolig. Diolch am bob rhodd, pob gweddi a phob gweithred ar hyd y flwyddyn sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mewn cymunedau drwy waith partneriaid Cymorth Cristnogol.

Diolch hefyd am y croeso gefais ym mhob gweithgaredd ar hyd a lled y wlad.

**Cadw'r dyddiad yn rhydd**

Ym mis Mawrth hoffem eich gwahodd i gyfarfod arbennig pan fyddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwaith ac yn cyflwyno adnoddau Wythnos Cymorth Cristnogol 2026. Byddwn hefyd yn croesawu Jane (Swyddog Rhaglenni ein gwaith yn Kenya) a Janet (Prif Weithredwr ein partner yn Kenya – Beacon of Hope) atom am sgwrs.

Lleoliad: Capel y Groes, Wrecsam

Dyddiad: dydd Mercher, 18 Mawrth 2026


Amser: 10.00–12.00

Os byddwch o fewn cyrraedd i Wrecsam, gobeithio y gallwch ymuno â ni ar gyfer y cyfarfod hwn. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn nes i'r amser.

*Llinos Roberts*
*Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru*

## Codi’r Llen: merched yr Hen Destament a’u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi’r Llen 13 – Ymson Lea

Rydw i wedi profi sut y gellir mesur a phwyso serch mewn ffordd annheg, a hefyd sut mae Duw yn gweld ac yn gwrando. Cefais fy rhoi i Jacob; nid fy newis i oedd hynny. Y noson honno, ces fy nghofleidio ganddo, ond gwyddwn mai rhywun arall oedd yn ei galon. Ro’n i wedi byw yng nghysgod Rachel ers blynyddoedd. Roedd hi’n brydferth. Cwympodd Jacob mewn cariad â hi mor rhwydd, mewn eiliadau. Gwelais hyn yn digwydd: y ffordd y meddalodd cyhyrau ei wyneb wrth edrych arni. Clywais y cariad yn ei eiriau ac yng ngoslef ei lais. Byddai’n sefyll yn stond wrth iddi fynd heibio. Roedd eisoes wedi rhoi ei hun iddi ac am ei phriodi.

Cofiaf wedyn i fy nhad ddweud wrthyf am draddodiad a threfn pethau: mai’r ferch gyntaf-anedig oedd i gael ei dewis gyntaf. Arhosais yn fud, heb deimlo y gallwn wrthwynebu hyn. Camais i’r berthynas hon gan wybod na fyddwn yn cael fy nerbyn yn llawn. Roedd fy nghalon yn llawn pryder; nid peth hawdd oedd gwybod am y siom oedd i ddod. Ac yn wir, bore trannoeth, wrth iddo godi’r gorchudd oddi ar fy llygaid, gwelais y braw yn llenwi ei lygaid. Bu raid i Jacob a minnau oddef y peth a dilyn y drefn o ddathlu am wythnos. Ond yna, ar ôl wythnos yn unig (ie, dim ond un), fe gafodd Rachel fod yn wraig iddo hefyd.

Ro’n i mewn priodas heb gariad, a fedrwn i wneud dim am y peth. Sut allwn i gystadlu â’u perthynas nhw? Amhosib! Ac ar ben hynny, do’n i ddim yn beichiogi ac ro’n i eisiau plant. Yn gyfrinachol, ro’n i’n gweddïo ar Dduw bob dydd, yn gofyn yn daer iddo weld fy angen am blant.

Yna, un diwrnod, teimlais rywbeth yn digwydd tu mewn imi, ac ymhen rhai misoedd ro’n i wedi rhoi genedigaeth i fab! Meddyliais yn sicr y byddai hyn yn cryfhau teimladau Jacob tuag ataf. Cefais fwy o feibion, a chyda pob un tyfodd fy ngobaith y byddai Jacob yn fy ngharu. Llanwodd fy nghalon â chariad mam, ond er imi ennill y ras honno (doedd Rachel ddim yn beichiogi), parhau i droi ei olygon tuag ati hi a wnaeth Jacob. Doedd y peth ddim yn deg: yr un na châi ei charu’n cael plant a’r un a gâi ei charu’n ddiffrwyth!

Ond wedi imi esgor ar fy mab Jwda, penderfynais ganolbwyntio ar roi fy nghlod i Dduw. Dyna pryd y daeth newid yn fy meddwl, a sylweddolais nad oedd raid imi gael fy ngharu gan ddyn i gael fy nghydnabod a’m derbyn gan Dduw.

Ond roedd y gystadleuaeth yn dal yno rhyngom fel chwiorydd. Cenfigennodd Rachel wrth i Reuben, fy mab, ddod o hyd i ffrwythau cariad mewn rhyw gae; bargeiniodd amdanynt drwy roi cyfle imi gysgu gyda Jacob. Mewn gwirionedd, yn y ddêl hon, fe brynais Jacob i mi fy hun. Dywedais wrtho fod raid iddo gysgu gyda mi. Ro’n i wedi deall bod modd imi ffeindio ffyrdd o gael yr hyn ro’n i ei eisiau. Oherwydd hynny, ces fwy o feibion ac un ferch hefyd. Roedd pob un ohonynt, fy mhlant, yn f’atgoffa nad yw ffafr Duw bob amser yn dilyn trefn dynion.

Alla i ddim esgus nad oeddwn i’n dyheu am yr hyn oedd gan Rachel. Ro’n i weithiau, yn oriau mân y bore, yn hiraethu am gael fy newis, am fod ar y brig. Serch hynny, gwyddwn hefyd fod Duw wedi rhoi rhywbeth amgen imi, rhywbeth dyfnach. Er na chefais fy ngharu fel y dymunwn, cefais fy nghydnabod ac ohonof fi y daeth llinach werthfawr.

**Holi**

- Gwelwyd Lea gan Dduw, er iddi deimlo bod eraill yn ei hanwybyddu. Sut mae’r gwirionedd hwn yn ein codi ni o’r ymdeimlad a gawn weithiau o deimlo’n eilradd?
- Dewisodd Lea roi clod i Dduw yn hytrach na disgyn i iselder. Oes modd i ni, fel unigolion ac eglwysi, newid ein ffordd o feddwl ynghanol dyheadau nad ydynt efallai’n cael eu gwireddu?
- Mae’r gystadleuaeth rhwng Lea a Rachel yn siapio’u stori. A welwch chi arwyddion fod yr arfer o farchnata (da a drwg) a chymharu yn effeithio ar ein cymdeithas a’n cymdeithasu heddiw (yn enwedig ym myd y gwefannau cymdeithasol)?

**Gweddi**

Dduw sy’n ein gweld a’n cydnabod, bob un ohonom, bydd yn gymorth inni ymddiried ynot a rhoi clod i Ti. Diolch i Ti am ein derbyn fel ag yr ydym. Maddau i ni am gymharu ein hunain ag eraill, a dysg ni i gredu yn ein gwerth. Cadw ein golygon arnat Ti bob amser. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 25 Ionawr, am 7:30yh – Cariad**
Bydd Rhodri Gomer yn ymweld â Bannau Brycheiniog i olrhain hanes cynnar Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Mae’n dysgu am ei charwriaeth drychinebus â Maelon a dicter ei thad, Brychan Brycheiniog. Stori sy’n dechrau’n drist ond yn gorffen yn hapus: ar ôl dioddef torcalon ei hunan, fe gysegrodd Dwynwen ei bywyd i wireddu breuddwydion cariadon eraill. Daw’r canu mawl o addoldai ledled Cymru a chawn fwynhau perfformiadau gan Aled Wyn Davies a Joy Cornock.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 25 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Wyn Edwards

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 25 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Ian Sims, Llanelli

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Tua Bethlehem dref …

Cafwyd dechrau da i ddathliadau'r Nadolig yng Ngellimanwydd, Rhydaman. Ar nos Sadwrn 6 Rhagfyr, cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig arbennig iawn yng nghwmni Côr Llanddarog dan arweiniad cyfarwyddwr cerdd y côr Meinir Richards a Sioned Beynon yn cyfeilio. Cafwyd ymateb gwefreiddiol gyda'r gynulleidfa luosog wedi ei swyno gan arlwy Nadoligaidd a chanu meistrolgar y côr a'i artistiaid dawnus.

Cyflwynwyd yr eitemau yn ddeheuig gan Gareth Williams, un o denoriaid y côr. Llywydd y noson oedd Geraint Evans, Prif Weithredwr newydd S4C a gyfoethogodd y noson gyda'i anerchiad diddorol yn cwmpasu ei fagwraeth, y dylanwadau arno a'i gysylltiadau gyda Gellimanwydd a Rhydaman. Roedd Geraint, un o faswyr y côr, hefyd yn canu gyda'r côr yn y gyngerdd.

Noddwyd y gyngerdd yn hael gan Roberts Concrete, Rhydaman, a pharatowyd y lluniaeth i aelodau'r côr, a gafwyd yn y neuadd wedi'r gyngerdd, a'i roi yn rhad, gan gwmni y Gegin Fach, Y Betws; y ddau gwmni â'u teuluoedd ynghlwm â Gellimanwydd. Cymaint oedd llwyddiant y noson, fel bod y capel wedi medru cyfrannu £1,500 yr un o elw'r gyngerdd i'r ddau elusen roeddem yn eu noddi trwy'r gyngerdd sef Ysbyty Plant Arch Noa, Caerdydd a Hosbis Tŷ Bryngwyn, Llanelli. Mae'n braf hefyd cael ar ddeall gan Ysbyty Plant Arch Noa, bod modd, trwyddynt, i ddyblu'r swm i £3,000 trwy 'match funding'.

Cafodd pawb noson wrth eu bodd a mawr yw ein diolch i bawb brynodd docynnau a mynychu'r gyngerdd ar y noson. Ie, cyngerdd arbennig i'n gosod yn y cywair priodol i ddathlu gŵyl fawr y Nadolig.

### Nadolig

Cofia'r gân, cofia'r geni, – cofia Dduw,
cofia ddyn lle byddi,
ac wrth gofio dyro di
yn haelionus eleni.

**Tomi Evans**




## Bywyd a diwinyddiaeth Dietrich Bonhoeffer


*Yn ystod diwrnod hyfforddiant gweinidogion yr Annibynwyr y llynedd yn y Llyfrgell Genedlaethol fe draddodwyd darlith sylweddol gan Gwilym Tudur ar y diwinydd D. Bonhoeffer. Dyma grynodeb o'r hyn gyflwynwyd.*



Mae bywyd a diwinyddiaeth Dietrich Bonhoeffer (1906–1945) yn enghraifft nodedig o ffydd Gristnogol sy'n ymateb yn ddewr i heriau hanesyddol. Ganwyd Bonhoeffer i deulu deallus, seciwlar ei naws, ond o fewn traddodiad diwylliannol oedd yn parchu Cristnogaeth. Daeth dylanwad ei fam, a'i phietistiaeth bersonol, ynghyd â'r traddodiad deallusol Lwtheraidd, yn sylfaen i'w ddiwinyddiaeth. Er i'w dad obeithio y byddai'n feddyg neu'n gyfreithiwr, penderfynodd Bonhoeffer yn ifanc iawn y byddai'n weinidog.

Yn ystod ei astudiaethau ym Tübingen ac yna ym Merlin, daeth dwy ffrwd o feddwl i'w siapio'n ddwys: diwinyddiaeth rhyddfrydol Von Harnack a diwinyddiaeth ddatguddiadol Karl Barth. Oddi wrth Von Harnack dysgodd werth y gymuned a dimensiwn moesol y ffydd; oddi wrth Barth fe ddysgodd fod datguddiad Duw yng Nghrist yn ddigwyddiad sy'n sail i bopeth. Yn ei draethawd PhD, *Sanctorum Communio*, cyfuno'r ddau ddylanwad hyn a wnaeth Bonhoeffer drwy bwysleisio mai'r eglwys yw 'Crist yn bodoli fel cymuned'. Felly, nid syniad haniaethol yw'r eglwys ond cymuned goncrit lle mae Crist yn bresennol ac yn siapio'r rhai sydd yn byw gyda'i gilydd fel disgyblion iddo.

Profiadau ffurfiannol eraill oedd ei ymweliad â Rhufain ym 1924, lle sylweddolodd realiti gweledol a chydlynol yr eglwys fel corff byw, a'i amser yn Harlem ym 1930, lle dysgodd mor ganolog i ffydd yw gweithredu dros gyfiawnder. Ar ôl cyfnodau yn Sbaen ac Efrog Newydd, daeth yn ddarlithydd ym Merlin, ond wrth i Natsïaeth ddod yn fwyfwy dylanwadol, tyfodd ei wrthwynebiad. Roedd y ffaith fod



*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

## Addewidion

Pan roeddwn yn yr ysgol gynradd, flynyddoedd maith yn ôl, ym mis Ionawr roedd yr athro yn gofyn i ni fel disgyblion. ‘Rŵan, beth yw eich addewidion ar gyfer y flwyddyn newydd?’ Ac roeddem yn sgwennu addewidion, fel, ‘rwy’n addo clirio fy llofft yn amlach’ neu ‘rwyf am llnau fy nannedd pob dydd.’ Ond wrth i mi ddod yn oedolyn fe syrthiodd yr arfer rhwng y cŵn a’r brain. Bellach mae’n arfer anffasiynol iawn ac un o’r rhesymau am hynny yw ein bod yn anobeithiol am gadw addewidion.

Ond yn ystod ein bywydau rydym yn gwneud addewidion. Os cawsom ein bedyddio neu os ydym wedi bedyddio ein plant, os ydym wedi dod yn aelod o fudiadau neu eglwys, neu wedi priodi rydym wedi gwneud addewidion.

### Gair Duw

Mae’r Beibl yn llawn o addewidion neu gyfamodau fel eu gelwir. Y cyntaf yw’r un yn Llyfr Genesis lle mae Duw yn dweud hyn,


> [15]Byddi di a’r wraig yn elynion.
> Bydd dy had di a’i had hi bob
> amser yn elynion.
> Bydd e’n sathru dy ben di,
> a byddi di’n taro ei sawdl e.

Hwn yw’r adduned/cyfamod y cyfeirir ato ym mhennill bythgofiadwy Pantycelyn,

> Ffydd, dacw’r fan, a dacw’r pren
> yr hoeliwyd arno D’wysog nen
> yn wirion yn fy lle;
> y ddraig a ’sigwyd gan yr Un,
> cans clwyfwyd dau, concwerodd un,
> a Iesu oedd efe.

Daeth un o had Efa, sef Iesu, ac fe goncrodd deyrnas yr Un drwg trwy ei waith rhyfeddol. Ac fe geir cyfamod rhwng Duw a’i bobl, yn Genesis 15, sef,

> [4]Dyma’r ymrwymiad dw i’n ei wneud i ti: byddi di’n dad i lawer iawn o bobloedd gwahanol. [5]A dw i am newid dy enw di o Abram i Abraham, am fy mod i wedi dy wneud di yn dad llawer o bobloedd gwahanol. [6]Bydd gen ti filiynau o ddisgynyddion. Bydd cenhedloedd cyfan yn dod ohonot ti, a bydd rhai o dy ddisgynyddion di yn frenhinoedd. [7]Bydda i’n cadarnhau fy ymrwymiad i ti ac i dy ddisgynyddion ar dy ôl di. Bydd yr ymrwymiad yn para am byth, ar hyd y cenedlaethau. Dw i’n addo bod yn Dduw i ti ac i dy ddisgynyddion di. [8]A dw i’n mynd i roi’r wlad lle rwyt ti’n crwydro, gwlad Canaan, i ti a dy ddisgynyddion am byth. Fi fydd eu Duw nhw.




Dro ar ôl tro mae Duw yn cadarnhau y cyfamod hwn ac yn gwneud rhai eraill am y Meseia, ei ddyfodiad, ei natur, ei farwolaeth a’i atgyfodiad.

### Ystyried o’r newydd

Rwy’n credu bod angen inni ail ystyried yr egwyddor o wneud addewid yng nghyd-destun ffydd. Sefydlwyd eglwysi annibynnol trwy gyfamod rhwng yr aelodau cychwynnol. Bu’n arferiad cyffredin i Gristnogion wneud cyfamod personol gyda Duw fel modd i ddangos eu hymrwymiad i Iesu a’u bod o ddifrif gyda’u bywyd ysbrydol. Yng nghofiant Thomas Richards Abergwaun, – brawd tad Henry Richards, Tregaron ceir nifer o gyfamodau dechrau blwyddyn. Y cyfamod enwocaf o bosib yw un Dafydd Cadwaladr, tad y nyrs enwog Betsi Cadwaladr.

Mae cyfamod yn ffordd o roi trefn ar ein bywyd, i osod blaenoriaethau, i gymryd ein ffydd yn Iesu o ddifrif a cheisio datblygu a thyfu yn fwy tebyg iddo Ef. Mae Duw yn gwybod yn fwy na neb ein bod yn methu a chadw ein gair, ond egwyddor fawr yr Efengyl yw bod maddeuant i’w gael trwy inni edifarhau a dibynnu ar rinwedd aberth Iesu trosom. Ac o wneud hynny cawn gyfle newydd i godi ar ein traed, ysgwyd y llwch oddi arnom gan ddilyn Iesu o’r newydd.

Pa adduned a allwn ni eu gwneud fel pobl Iesu ar ddechrau 2026? Beth am rhain?

1. Credu a’i ddilyn yn ffyddlon o ddydd i ddydd. Gan garu Duw a chyd-ddyn.
2. Darllen y Beibl yn gyson a gweddïo.
3. Bod yn ffyddlon a gweithgar yng ngwaith teyrnas Dduw trwy eglwys leol. Falle ein bod wedi torri cysylltiad ag eglwys. Beth am ailgydio a rhoi ein doniau a’n adnoddau at waith Iesu Grist.
4. Cyfrannu yn gyson at waith eglwys leol.

**Alun Tudur**

## Bywyd a diwinyddiaeth Dietrich Bonhoeffer – parhad

eglwysi’r Reich, yn cydsynio i syniadaeth Natsïaidd, yn gwbl wrthun iddo. Yn 1933–34 bu’n rhan o lunio ‘Cyffes Bethel’ a sefydlu Eglwys Gyffesiadol yr Almaen – eglwys oedd yn gwrthod hawl y wladwriaeth i dymheru ffydd a chred Cristnogion.

Yn 1935 dychwelodd i arwain y coleg diwinyddol cudd yn Finkenwalde, lle datblygodd ei syniadau am ddisgyblaeth Gristnogol. Yma yr ysgrifennodd *Nachfolge (The Cost of Discipleship)*, lle beirniadodd ‘ras rhad’ – ffydd sy’n ceisio bendith heb aberth – ac amlinellodd ‘gras gostus’, sef dilyn Iesu hyd at groes a dioddefaint. Yn *Bywyd gyda’n gilydd*, eglurodd sut mae cymuned Gristnogol yn byw drwy ras ac yn atebol i’w gilydd.

Ar ôl cau Finkenwalde gan y Gestapo ym 1937, dechreuodd Bonhoeffer fynegi ei wrthwynebiad i’r Natsïaid yn llawer mwy cryf. Trwy’r Abwehr, a thrwy gysylltiadau fel Esgob George Bell, helpodd i achub Iddewon ac ymuno’n anuniongyrchol â chynllluniau yn erbyn Hitler. Arestiwyd ef ym 1943 ac fe’i dienyddiwyd ar 9 Ebrill 1945 yn Flossenbürg.

Mae ei fywyd yn tystio i undod bywyd a diwinyddiaeth: roedd ei athrawiaeth yn arwain at weithredu, ac roedd ei weithredu’n seiliedig ar ffydd ddofn yng Nghrist. Trwy ei waith a’i farwolaeth, mae Bonhoeffer yn parhau i herio’r eglwys i fyw’n ffyddlon, aberthol a chymunedol yn wyneb anghyfiawnder.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gofalaeth Glannau Ogwr – parhad



gymerodd ran yn y darlleniadau. Hefyd diolch i Indeg Evans am ei chanu swynol. Noson hyfryd sydd bob amser yn gosod naws hyfryd ar gyfer dathlu'r Nadolig. Wrth gwrs roedd rhaid cymdeithasu dros baned, mins pei a sausage rôl wedi'r canu.

Daeth y gweithgareddau oedd yn arwain i fyny at y Nadolig i ben gyda gwasanaeth cymundeb yng nghapel y Tabernacl Pen-y-bont am 11.30 noswyl y Nadolig a gwasanaeth cymundeb bore'r Nadolig yn y ddau gapel. Diolch i'n gweinidog, y Parchg Dylan Rhys Parry, am ei holl waith yn paratoi ar ein cyfer.



*Y cast ar ddiwedd perfformiad*

**Tom Price**
*(Ysgrifennydd Capel y Tabernacl Porthcawl)*

# Gŵyl y Baban

## Y plant a'r ieuenctid yng nghanol dathliadau'r Nadolig



Mae'r cyfnod cyn y Nadolig yn gyfnod prysur a chyffrous yn hanes pob capel ac felly roedd hi dros y Nadolig yng ngofalaeth Bethesda'r Tymbl, Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets.

Cafwyd oedfaon aelodau yn ymwneud â'r Nadolig yn ogystal â noson canu carolau, oedfa Nadolig mewn cartref i'r henoed lleol a chinio Nadolig. Yn ogystal daeth criw 'Dechrau Canu' atom i recordio eitem ar arddangosfa arbennig a drefnwyd yng nghapel Seion sef 'Nadolig Mewn Bocs'. Yn yr arddangosfa roedd aelodau'r capel a'r gymuned leol wedi portreadu'r Nadolig mewn bocs ac roedd pawb â'u dehongliad gwahanol o beth roedd y Nadolig yn golygu iddynt hwy.

Un o uchafbwyntiau'r Nadolig heb os oedd yr oedfaon yng ngofal y plant a'r ieuenctid yn y tri chapel. Yng nghapel Seion cafwyd oedfa hyfryd gan yr ieuenctid a'r oedolion ifanc. Tra yn Bethesda a Nazareth cafwyd drama'r geni yn cael eu cyflwyno yn wych gan y plant lleiaf.

'Daeth gŵyl y baban a gwên nôl i'r byd' medd Caryl Parry Jones yn y garol 'Gŵyl y Baban' a dyna oedd ein profiad ni'r Nadolig yma.

**Guto Llywelyn**





*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*